

CYFFES FFYDD

32. Am heddwch cydwybod.

Y mae'r credinwyr yn y byd hwn yn mwynhau heddwch cydwybod (a). Er fod eu cydwybodau wedi cael eu gwir ddeffroi i dystiolaethu dros Dduw, gyda'r gwirionedd, ac yn erbyn pob pechod mewn calon a buchedd, ac yn tystiolaethu am fawr ddrwg pechod, a chyflwr truenus pechadur, a'i fod yn haeddu digofaint Duw (b) eto, gan fod y pechadur yn derbyn y cymod, ac yn pwysu trwy ffydd ar aberth ac lawn Crist, y mae y gydwybod yn fodlon yn yr hyn a fodlonodd Dduw, ac yn mwynhau gwir dangnefedd trwy waed y groes, ac yn tystio fod i ni heddwch â Duw (c). Nid yw cydwybod heddychlon yn gadael ei pherchen i fyw mewn pechod; ond y mae hi yn dyner, yn effro, ac yn ffyddlon, i dystiolaethu yn erbyn pechod o bob math, a thystiolaethu yn ffyddlon yn erbyn hudoliaeth y diafol a llygredd y galon (d).

Y mae y rhai sydd yn proffesu fod ganddynt heddwch cyd-wybod, ac yn byw mewn pechod, yn eu twyllo eu hunain (e). Er nad yw heddwch cydwybod yn cael ei sylfaenu ar brofiad y dyn, purdeb ei ddibenion, na manylrwydd ei fuchedd, eto y mae dibenion cywir, a rhodiad manwl yn ffyrdd Duw, yn fanteisiol awn i gadw a mwynhau heddwch cydwybod (f). Y mae cydwybod weithiau yn cyhuddo y credadun o bechod, ac yn tystiolaethu ei fod ef yn haeddu gwg a cherydd Duw, er nad yw yn ei gollfarnu ef (g). Y mae cydwybod heddychlon yn werthfawr mewn gweddi, mewn trallod, ac yn angau (h).

32. Of Peace of Conscience.

Believers in this world enjoy peace of conscience (a). Though their consciences have been truly awakened to bear witness for God, with the truth, against every sin in their hearts and lives, and declare the great evil of sin, the miserable state of the sinner, who deserves the wrath of God (b), yet, because the sinner receives the atonement and rests by faith on the sacrifice and propitiation of Christ, his conscience is satisfied in what has satisfied God, enjoys true peace through the blood of the cross, and testifies that we have peace with God (c). An appeased conscience does not permit the believer to live in sin, but is a tender, awakened, and faithful conscience, to bear witness against sin of every kind – against the enticements of the devil and the corruption of the heart (d).

Those who profess to have peace of conscience, and yet live in sin, deceive themselves (e). Though peace of conscience is not founded on the man's experience, the purity of his motives, or the strictness of his life, pure motives and a strict walk in the ways of God are very helpful to keep and enjoy peace of conscience (f). Conscience sometimes accuses the believer of sin and testifies that he deserves the frown and chastisement of God, though it does not pronounce sentence of condemnation upon him (g). An appeased conscience is precious in prayer, in trouble, and in death (h).

(a) Rhuf./Rom. 5:1; 1 Ioan/1 John [4:13]; 3:14,21; Actau/Acts 24:16.

(b) Gen. 39:9; Rhuf./Rom. 7:14,18; 1 Tim. 1:19.

(c) Rhuf./Rom. 5:11; Heb. 10:19-22; 2 Cor. 1:12; 5:19; Rhuf./Rom. 8:16; 1 Cor. 2:12.

**(d) Rhuf./Rom. 6:1-2; Col. 3:1-3; 2 Cor. 7:1; 1 Ioan/1 John 3:3;
Jwd./Jude 2:3; 1 Pedr/1 Peter 1:15; 2:11.**

(e) 1 Ioan/1 John 1:6; Deut. 29:19; Phil. 3:18-19.

**(f) 2 Cor. 1:12 gwêl/see (c); 1 Ioan/1 John 1:7, 3:21, 14:23, 15:14;
Eseia/Isa. 32:17; Salm/Psa.18:23, 119:165; Actau/Acts 9:31; 1 Thes.
3:13.**

(g) Salm/Psa 34:7; 51:1-14; Jer. 2:17; 4:18; Luc/Luke 22:61-62.

**(h) Salm/Psa 66:18-19, 73:28; Heb. 10:22; Iago/James 4:8; 2 Cor.
1:12 gwêl/see (c);
Phil. 1:19-23; Luc/Luke 2:29; 1 Cor. 15:55; Rhuf./Rom. 5:2.**